# Papur y Bwrdd

17th Mawrth 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Diweddariad ynghylch rheoli stociau o eog a siwin** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **Papur NRW 22.16** |
| **Paratowyd y papur gan:** | **Ceri Davies** |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Peter Gough |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Gwybodaeth** |
| **Argymhelliad:** | Dylid nodi cynnydd |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | **Effaith ar yr amgylchedd:**<br>Mae angen dŵr o ansawdd da ar bysgod, yn enwedig pysgod eogaidd, mae angen sicrhau bod cyflenwad da o ddŵr ar gael iddynt, ac mae angen iddynt gael mynediad i gynefin o safon. Felly, mae pysgod yn un o ddangosyddion allweddol perfformiad ecolegol ac ansawdd amgylcheddol.<br><br>**Effaith ar yr economi:**<br>Mae gan bysgodfeydd Cymru rôl bwysig i'w chwarae o safbwynt darparu swyddi ac incwm ym maes pysgota at ddibenion hamdden, ym maes rheoli pysgodfeydd ac ym maes twristiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.<br><br>**Effaith ar y gymuned:**<br>Gall pysgod chwarae rhan bwysig yn y broses o gysylltu pobl â'u hamgylchedd a darparu cyfleoedd o ran addysg, gweithgareddau hamdden a manteision cysylltiedig sydd o fudd i iechyd.<br><br>**Effaith ar wybodaeth:**<br>Mae angen i ni gael sylfaen dystiolaeth gref i lywio'r cyngor yr ydym yn ei roi i Lywodraeth Cymru ynghylch polisi pysgodfeydd, llywio penderfyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru |

| | |
|---|---|
| | ynghylch y modd y caiff pysgodfeydd eu rheoli, a llywio trafodaethau â phartneriaid a'r sawl sy'n cydgyflawni â ni. |

## Mater

1. Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad ynghylch y cynnydd a wnaed yn ein hadolygiad o faterion sy'n ymwneud â rheoli stociau o eog a siwin, ers y tro diwethaf i'r Bwrdd ymdrin â'r mater ym mis Gorffennaf 2015, ac mae'n darparu diweddariad ynghylch cyfarfod is-grŵp y Bwrdd ym mis Rhagfyr.

2. Diben y papur yw egluro'r sefyllfa bresennol a'r camau nesaf, a phapur er gwybodaeth yn unig ydyw felly.

## Cefndir

3. Cafodd y cefndir llawn ei nodi ym Mhapur y Bwrdd ar 9.7.15, a chaiff y cefndir ei grynhoi isod:-

   - Bernir bod stociau o eog ar eu lefel isaf erioed ar draws eu cynefin yng Ngogledd yr Iwerydd. Y rheswm cyffredinol am hynny yw'r nifer fach o eogiaid sy'n goroesi yn y môr yn hanesyddol, a bernir bod hynny'n digwydd o ganlyniad i amodau amgylcheddol sy'n newid yng Ngogledd yr Iwerydd oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Mae hynny'n newid y cynefin sydd ar gael, a'r ysglyfaeth sydd ar gael hefyd yn ôl pob tebyg, a chanlyniad hynny yw effaith andwyol ar nifer yr eogiaid sy'n goroesi.

   - Mae perfformiad stociau o siwin yn fwy amrywiol, ond mae rhai afonydd yn ne-orllewin Cymru yn peri pryder gwirioneddol. Nid yw'r siwin yn byw yn yr un cynefinoedd morol â'r eog, ac yn gyffredinol ymddengys fod y siwin yn aros o fewn terfynau Môr Iwerddon. Yno, mae'r rhywogaeth yn llai agored i effeithiau ansawdd cynefin morol sy'n dirywio.

   - Rydym hefyd yn mesur perfformiad ein stociau o eog a siwin ifanc drwy ein hasesiadau a gynhelir dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'n rhaglenni arferol ar gyfer monitro pysgod dŵr croyw. Yn ôl ein hasesiad cyfredol, mae tua 60% o gyrff dŵr sy'n afonydd yng Nghymru yn methu â chyrraedd Statws Ecolegol Da, a'r rheswm dros fethiant tua 35% o'r rheini yw pysgod.

   - Mae rheolaeth reoliadol yn bwysig i ddiogelu a chadw'r poblogaethau bridio, fodd bynnag mae'n bwysig fod camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion sylfaenol ansawdd cynefin afon.

4. Mae'r eog a'r siwin yn rhywogaethau poblogaidd ar gyfer pysgota at ddibenion hamdden, ac maent yn rhywogaethau a gaiff eu dal gan bysgotwyr yn y rhan fwyaf o afonydd Cymru:-

    - Bob blwyddyn rydym yn gwerthu tua 5,600 o drwyddedau pysgota pysgod mudol o deulu'r eog â gwialen, sy'n cynhyrchu oddeutu £290,000 o incwm i Cyfoeth Naturiol Cymru.
    - Rydym hefyd yn gwerthu 50 o drwyddedau pysgota â rhwyd bob blwyddyn, sy'n cynhyrchu oddeutu £16,000 o incwm.
    - Mae pysgodfeydd mewndirol yn cyfrannu llawer i les economaidd Cymru (roedd astudiaeth yn 2009 yn amcangyfrif bod pysgota mewndirol yn cynhyrchu gwerth £74 miliwn o wariant gan bysgotwyr yng Nghymru).
    - Ar hyn o bryd mae pysgotwyr yn rhoi oddeutu 75% o'r eog a'r siwin a gaiff eu dal yn ôl yn yr afon yn fyw.  Mae hynny'n ofyniad statudol ym mhob pysgodfa eog cyn 16 Mehefin, ond gweithred wirfoddol yw hi ar ôl hynny (ac eithrio yn afonydd Gwy a Thaf/Elái lle mae is-ddeddfau 'dal a rhyddhau' statudol llawn mewn grym ar gyfer y ddwy rywogaeth).
    - Mae'n ofyniad statudol i bysgotwyr a rhwydwyr gyflwyno gwybodaeth am yr hyn y maent yn ei ddal, a chaiff data am yr hyn a gaiff ei ddal â gwialen ei ddefnyddio i asesu statws stociau'r ddwy rywogaeth.
    - Mae llawer yn cydnabod bod gwerth o ran treftadaeth yn perthyn i rai dulliau o bysgota â rhwyd, yn enwedig pysgota â rhwyd gan ddefnyddio cwryglau.  Gallai cyfyngu ymhellach ar weithgarwch fygwth hyfywedd rhai gweithgareddau.

5. Mae ein hasesiadau cyfredol o stociau'n dangos:-

    - bod pob un o'n 23 o brif afonydd ar gyfer yr eog yn cael eu hystyried yn afonydd sydd 'mewn perygl' o fethu â chyrraedd eu targedau ar gyfer cadwraeth a rheolaeth. At hynny, mae'r eog yn cynnal dynodiadau chwe afon dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, ac felly mae eu perfformiad gwael yn llesteirio'r gwaith o gyflawni'r targedau hynny.

    - bod y broses o weithredu gofynion y Strwythur Penderfynu ar gyfer rheoli pysgota eogiaid, sy'n ddull gweithredu y cytunwyd arno â Llywodraeth Cymru, yn datgan yn glir bod yn rhaid i ni weithredu ar frys i sicrhau nad yw pysgotwyr â gwiail a rhwydi yn dal ac yn lladd eogiaid (a bod 100% o'r rhai

sy'n cael eu dal yn cael eu rhyddhau) ond gan gynnal manteision economaidd-gymdeithasol lle bo hynny'n bosibl.

- bod 40% o'n stociau o siwin yn cael eu hystyried yn stociau sydd 'mewn perygl'. Mae'r fethodoleg ar gyfer y siwin yn llai cadarn na'r fethodoleg ar gyfer yr eog, ond rydym o'r farn bod yr egwyddor yn gadarn.

Bydd asesiadau newydd o stociau'n cael eu llunio ym mis Ebrill 2016, fodd bynnag ein dynodiadau cychwynnol yw y bydd yn annhebygol y bydd unrhyw newid yn asesiadau'r eogiaid ac ychydig o newidiadau yn asesiadau'r siwin.

6. Nid ydym o'r farn mai pysgota (â gwiail a rhwydi) sy'n peri i stociau ddirywio, ond mae'n amlwg na ellir cyflawni'r gofyniad brys i gynyddu niferoedd y pysgod sy'n goroesi i silio oni bai bod pysgotwyr â gwiail a rhwydi'n rhoi'r gorau i ladd pysgod yn gyfan gwbl. Byddai hynny'n rhoi hwb yn syth i niferoedd y pysgod sy'n silio a byddai'n arwydd o gynnydd tuag at gyflawni amcan allweddol, sef cynyddu niferoedd y gleisiaid sy'n gadael ein hafonydd yn y dyfodol.

7. Bydd hynny'n cael yr effaith fwyaf os bydd dulliau o adfer dalgylchoedd yn parhau, ac rydym yn cymryd camau brys i archwilio opsiynau er mwyn cynnal lefel y gwaith a wneir yn y maes hwn gennym ni a chan ein partneriaid.

**<u>Diweddariad ynghylch ymgysylltu â phartneriaid</u>**

8. Ers cyfarfod diwethaf is-grŵp y Bwrdd, rydym:-

- Wedi cynnal cyfarfodydd cyswllt arbennig â phob un o'n 7 o Grwpiau Pysgodfeydd Lleol, lle trafodwyd y dystiolaeth ynghylch statws stociau ac opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r statws gwael.

- Wedi cynnal rhagor o ddigwyddiadau ymgysylltu o'r fath gyda grwpiau pysgota mewn ardaloedd nad yw Grwpiau Pysgodfeydd Lleol yn ymdrin â nhw ar hyn o bryd (Ceredigion a dalgylch rhan uchaf Afon Hafren).

- Wedi cynnal cyfarfodydd penodol â deiliaid trwyddedau pysgota â rhwyd.

- Wedi llunio a dosbarthu'n eang holiadur y bwriedir iddo ei gwneud yn haws i unigolion, neu grwpiau sy'n cynrychioli pysgotwyr, ddarparu sylwadau ystyriol ynghylch y materion. Rydym wedi cael oddeutu 100 o ymatebion ac mae'r rheini'n cael eu hasesu ar hyn o bryd.

- Wedi mynychu "Cynhadledd ynghylch yr eog" a drefnwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd/DEFRA lle rhoddodd Asiantaeth yr Amgylchedd y wybodaeth

ddiweddaraf i gynulleidfa wadd am statws yr eog yn Lloegr, gan gyflwyno "Cynllun Pum Pwynt" i fynd i'r afael â hynny.  Mae cynllun Asiantaeth yr Amgylchedd yn debyg iawn i'r cynllun a amlinellwyd i'r Bwrdd yr haf diwethaf:-

I. Gwella cyfraddau goroesi yn y môr
II. Lleihau ymhellach y graddau y mae pysgotwyr â gwiail a rhwydi yn dal ac yn lladd eogiaid
III. Cael gwared â rhwystrau sy'n atal pysgod rhag mudo, a gwella cynefin
IV. Diogelu llif digonol
V. Sicrhau bod cymaint o silio ag sy'n bosibl yn digwydd, trwy wella ansawdd dŵr.

9. Dyma gynllun presennol Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y cafodd ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2015:-

I. Adfer cynefinoedd dŵr croyw (mae hynny'n cynnwys pwyntiau 3, 4 a 5 Asiantaeth yr Amgylchedd).
II. Annog rhagor o achosion gwirfoddol o ddal a rhyddhau pysgod, er mwyn cynyddu niferoedd y pysgod sy'n dychwelyd i silio.
III. Rheoleiddio'r pysgod a gaiff eu pysgota â gwiail a rhwydi ac yna'u lladd.

10. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu ynghylch materion sy'n ymwneud â goroesi yn y môr.

11. Rydym wedi parhau i gynnal asesiadau technegol o ddalfeydd mewn pysgodfeydd gwiail a rhwydi, ac archwilio opsiynau sy'n ymwneud â chyrraedd targedau ar gyfer gwarchod stociau.  Mae'r opsiynau hynny'n cynnwys:-

   a. Opsiynau sy'n ymwneud â gwirfoddoli i ddal a rhyddhau pysgod, systemau rheoli sy'n ymwneud â thymhorau pysgota a systemau rheoli sy'n ymwneud â dulliau pysgota
   b. Opsiynau sy'n ymwneud ag is-ddeddfau a Gorchmynion Cyfyngu ar Rwydi er mwyn rheoleiddio achosion o ddal pysgod â gwiail a rhwydi ac yna'u rhyddhau, a rheoleiddio dulliau pysgota a thymhorau pysgota.

**Camau nesaf**

12. Yn ddiweddar cawsom ein hysbysu fod ein cais i Lywodraeth Cymru am adnodd ychwanegol i ddatblygu'r gwaith ar reoliadau newydd ar gyfer pysgota eogiaid a siwin wedi bod yn llwyddiannus. Rydym felly yn gweithredu ein cynllun i barhau â'r gwaith hwn.

Byddwn:-

- yn cwblhau cynllun y prosiect ar gyfer y gwaith
- yn dadansoddi ac yn dehongli'r ymatebion i'r arolwg ar ffurf holiadur
- yn diweddaru ein hasesiadau o stociau o eog a siwin
- yn archwilio methodoleg fwy cadarn ar gyfer asesu stociau o siwin
- yn gofyn am gyfarfod adolygu gydag is-grŵp y Bwrdd er mwyn archwilio opsiynau a thactegau
- yn ymgynghori â chydweithwyr ym meysydd y gyfraith a chyfathrebu
- yn adrodd ynghylch pob un o'r materion hyn wrth y Grwpiau Pysgodfeydd Lleol ddiwedd mis Mai
- yn parhau i ymgysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn ceisio sicrhau dull cyson o weithredu.

13. Yna, byddwn yn ystyried pob mater wrth lunio achos technegol dros gyflwyno mesurau rheoli newydd posibl, gan gynnwys is-ddeddfau a Gorchmynion Cyfyngu ar Rwydi.

## Asesiad

14. Bydd y pwnc hwn yn un dadleuol iawn ymysg ein rhanddeiliaid, ond mae gwarchod ein pysgodfeydd gwerthfawr o'r pwys mwyaf.  Nodir bod mesurau statudol i gyfyngu ar ladd pysgod wedi'u rhoi ar waith, neu'u bod yn cael eu hystyried o ddifrif yn awr, mewn awdurdodaethau eraill sy'n cynnwys yr Alban ac Iwerddon.

15. Mae materion sy'n peri pryder, a godwyd eisoes gan randdeiliaid, yn cynnwys y canlynol:-

- Bydd mesurau rheoli newydd yn golygu llai o bysgota yng Nghymru, a fydd yn arwain at effaith economaidd gysylltiedig
- Bydd gan gymdeithasau pysgota ledled Cymru lai o aelodau
- Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn colli rhywfaint o'i enw da unwaith eto
- Bydd gwerth hawliau pysgota'n gostwng wrth i ragor o fesurau rheoli gael eu cyflwyno i reoleiddio pysgota
- Nid yw pysgotwyr 'yn hoffi cael gorchymyn ynghylch yr hyn y dylent ei wneud'
- Dylai unrhyw fesurau arfaethedig gael eu rhoi ar waith yn gyson ledled Cymru.

## Argymhelliad/Argymhellion

16. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r materion sydd yn y papur hwn a rhoi unrhyw adborth i'r awdur.

17. Yn ogystal, gofynnir i'r is-grŵp 'Da i'r Amgylchedd' sydd gan y Bwrdd gefnogi'r broses sy'n mynd rhagddi, mewn trafodaethau mewn cyfarfod a gynhelir yn y dyfodol.

**Prif risgiau**

18. Papur er gwybodaeth yw hwn, ac mae'n disgrifio'r opsiynau sy'n ymwneud â gwarchod ein pysgodfeydd gwerthfawr. Fodd bynnag, mae'n werth ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno mesurau posibl yn y dyfodol i reoli pysgota.

- Bydd methu ag ymateb i statws gwael stociau'n gyfystyr â methiant i weithredu mesurau gwarchod ac adfer, ac felly gallai gyfrannu at fethiant parhaus i gyflawni targedau dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.
- Bydd methiant i fynd i'r afael â'r problemau'n cyfrannu at ganfyddiad parhaus o fethiant i gyflawni ein dyletswyddau yng nghyswllt pysgodfeydd.
- Byddai hynny hefyd yn gyfystyr â cholli cyfle i gynyddu stociau a chynyddu gwerth economaidd posibl ein pysgodfeydd.
- Gallai unrhyw ymateb arwain at her gyfreithiol.

19. Dylid mynd i'r afael â'r holl risgiau drwy gyfathrebu'n barhaus â rhanddeiliaid a chyrff partner, ond cydnabyddir ei bod yn annhebygol y bydd modd dod o hyd i dir cyffredin rhwng y sawl sydd â barn wahanol.

**Goblygiadau ariannol**

20. Bydd camau i gyflwyno mesurau rheoli newydd yn golygu:-

- Bod angen ariannu cyfarfodydd cyswllt parhaus â rhanddeiliaid (amser y staff)
- Costau hysbysebu unrhyw fesurau arfaethedig (mae'r costau'n debygol o fod yn llai na £5,000)
- Adnoddau o ran staff: amcangyfrifir y byddai angen i becyn llawn o is-ddeddfau a Gorchmynion Cyfyngu ar Rwydi gael 2.4 o staff cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n cynnwys staff technegol pysgodfeydd yn bennaf ond a fyddai hefyd yn cynnwys staff cyfreithiol a staff cyfathrebu. Mae cynnig wedi'i gynnwys ynghylch adnodd newydd ar gyfer pysgodfeydd yn y cais i Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â beichiau nas ariennir.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

21. Nid oedd angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

**Mynegai i'r Atodiadau**

22. Nid oes angen Atodiadau.